

## CYNLLUN GWEITHREDU AMCANION CYDRADDOLDEB 2018 - 2019

Mae Prifysgol Bangor yn ymrwymedig i fod yn Brifysgol Gynaliadwy ac mae'n raddol yn mabwysiadu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i lywio ei gweithgareddau. Un o'r nodau llesiant yw bod yn Brifysgol sy'n galluogi ein holl fyfyrwyr a staff i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir nac amgylchiadau, gan gyfrannu at y dyhead cenedlaethol o Gymru fwy cyfartal.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi amcanion cydraddoldeb y brifysgol ar gyfer 2018-2019; adroddir yn ei erbyn ym mis Mawrth 2019 a bydd yn cyfrannu at adroddiad integredig y brifysgol ar gynaliadwyedd a lles. Mae'r camau gweithredu ar sail: gwaith sydd eisoes ar droed ac wedi ei nodi fel rhywbeth pwysig i barhau ag ef, er enghraifft agenda Athena Swan; mae'r amcanion ar sail dogfennau strategol allweddol eraill, er enghraifft: y Strategaeth Profiad Myfyrwyr, amcanion allweddol sydd a wnelont a chyfeiriad y Brifysgol gydag Ehangu Mynediad a Chyrraedd yn Ehangach; a gwaith sydd wedi ei nodi o ganlyniad uniongyrchol i ymgynghori gyda staff, er enghraifft mewn perthynas â staff anabl.

### Egluro penawdau'r Cynllun Gweithredu:

- Amcan: Y maes eang rydym am weithredu ynddo
- Dyletswydd Cydraddoldeb: pa feysydd o'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yr ymdrinnir â hwy
- Cynllun Strategol y Brifysgol: Pa amcanion neu alluogwyr Strategaeth y Brifysgol mae'r amcan cydraddoldeb yn cwrdd â hwy
- Gweithredu Cydraddoldeb: Pa gam gweithredu sydd wedi'i nodi
- Mesur y Llwyddiant: Sut y mesurwn lwyddiant y camau gweithredu dros gyfnod y Cynllun Gweithredu
  
- Cyfrifoldeb: Gwasanaeth, Uned, Swyddog, neu Faes Academaidd

### Y Dyletswyddau Cydraddoldeb yw:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail nodwedd warchoddedig;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

### Nodau Strategol y Brifysgol yw:

Mae'r amcanion wedi eu datblygu i gefnogi Cynllun Strategol 2015-2020 y Brifysgol, "Adeiladu ar Lwyddiant", a'r galluogwyr strategol a nodwyd. Mae 4 Blaenoriaeth Strategol a 5 Galluogwr Strategol:

Blaenoriaethau Strategol	Galluogwyr Strategol
<ol style="list-style-type: none"><li>1. Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfyrwyr</li><li>2. Gwella Llwyddiant Ymchwil</li><li>3. Prifysgol Ryngwladol ar gyfer y Rhanbarth</li></ol>	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Pobl</li><li>2. Adnoddau</li><li>3. Trefn Lywodraethol a Rheolaeth</li><li>4. Brand a Marchnata</li></ol>

4. Yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg ac Ymwneud â'r Cyhoedd

5. Cynaliadwyedd

### Nodweddion Gwarchoddedig:

Mae pob un o amcanion y cynllun gweithredu yn gysylltiedig ag o leiaf un o nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Gydraddoldeb, sef oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

AMCAN A CHAM GWEITHREDU	Oedran	Anabledd	Hunaniaeth Rhywedd	Beichiogrwydd /mamolaeth	Hil	Crefydd a Chred	Rhyw	Cyfeiriadedd Rhywiol
<b>AMCAN 1</b> <b>Prif-frydio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy Alluogwyr Strategol y Brifysgol</b>								
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Lledaenu'r ymrwymiad i gydraddoldeb	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hyfforddi Staff a Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Monitro	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyhoeddi	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyflog cyfartal, bwch cyflog rhwng y rhywiâu a materion cytundebol	✓	✓			✓		✓	
Staff Anabl	✓	✓						
Caffael a chynaliadwyedd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mynediad Cynhwysol	✓	✓						
<b>AMCAN 2</b> <b>Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfrwyr</b>								
Strategaeth Profiad Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Swyddfa Ryngwladol					✓	✓		
Undeb y Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
<b>AMCAN 3</b> <b>Ymchwil</b>								
Athena SWAN	✓		✓	✓			✓	✓
Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

**AMCAN UN****PRIF-FFRYDIO CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH DRWY ALLUOGWYR STRATEGOL Y BRIFYSGOL****Dyletswydd Cydraddoldeb****Sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda****Y Brifysgol****Galluogwyr Strategol y Cynllun Strategol**

<b>CAMAU GWEITHREDU CYDRADDOLDEB</b>	<b>MESUR LLWYDDIANT</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
<p><u>Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb</u></p> <p>Sicrhau bod dogfennaeth yn addas i'r diben, ar gael ar y we, darparu hyfforddiant priodol a pharhau i godi ymwybyddiaeth.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd ffurflenni a chanllawiau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb sydd newydd eu diwygio yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ynghyd â chanllawiau Panopto. Bydd hyfforddiant pellach ar gael ar gais.</li> <li>2. Cedwir yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn ganolog ac yn hygyrch. Caiff y defnydd o Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a'u cofnodion eu monitro.</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol a Phennaeth Cydymffurfio</p>
<p><u>Lledaenu a chyfathrebu'r ymrwymiad i gydraddoldeb</u></p> <p>Datblygu swydd yr Hyrwyddwyr Cydraddoldeb i weithredu fel cysylltiadau allweddol yn y maes hwn i rannu pryderon ac arfer gorau ar draws y Brifysgol.</p> <p>Ymgorffori cydraddoldeb ar draws y tri Choleg academiaidd.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhwydwaith o staff hyfforddedig sy'n gallu cefnogi cynlluniau a hyrwyddo cydraddoldeb ar lefel Colegau ac Adrannau a fydd yn trafod pryderon a godir gyda'r Swyddog Cydraddoldeb.</li> <li>2. Hyrwyddo a chefnogi ceisiadau Athena SWAN ar lefel ysgol gan gynnwys ymrwymiad y Brifysgol i'r siarter AS wedi'i ehangu ac i'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â chefnogi staff a myfyrwyr Traws yn ogystal â chydabod a mynd i'r afael ag achosion lle mae mwy nag un math o anghydraddoldeb yn 'cydblethu' (yn enwedig rhywedd ac ethnigrwydd).</li> <li>3. Cyflwyno pwyllgorau cydraddoldeb yn y Colegau.</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol</p>

	<p>4. Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau i wella'r drefn ar gyfer cipio data recriwtio er mwyn gallu monitro data'n flynyddol.</p> <p>5. Adolygu'r posibilrwydd o gynnwys datganiad cadarnhaol ar hysbysebion a dogfennaeth recriwtio yn annog ceisiadau gan fenywod a phobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig.</p> <p>6. Codi ymwybyddiaeth ymysg academyddion newydd a staff eraill ar faterion cydraddoldeb gan gynnwys yr iaith Gymraeg.</p>	<p>Timau Gweithredol Colegau/Rheolwyr Colegau</p>
<p><u>Hyfforddi staff a myfyrwyr</u> Adolygu'r modiwl hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein i'r holl staff a pharhau â'r cwrs Cydraddoldeb i Reolwyr.</p> <p>Gwasanaethau Myfyrwyr ac AD i ymgynghori ar sesiynau briffio ar gydraddoldeb i'r Tîm Gweithredol a diweddariadau ar gydraddoldeb i Gyngor y Brifysgol.</p> <p>Darparu hyfforddiant priodol wedi'i deilwra ar gyfer staff rheng flaen a swyddogion sabothol y myfyrwyr.</p> <p>Hyrwyddo'r rhaglen Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl</p> <p>Darparu hyfforddiant y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi i staff Caffael (yn cynnwys y modiwl cydraddoldeb/moeseg).</p>	<p>1. Datblygu tudalen we newydd ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb</p> <p>2. Hyfforddiant cydraddoldeb i bob aelod staff (ar-lein) - parhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni hynny 100% erbyn 2020.</p> <p>3. Parhau â'r cwrs Cydraddoldeb i Reolwyr, un sesiwn bob chwarter yn y Gymraeg a'r Saesneg ac ychwanegu'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Brifysgol i'r MCA.</p> <p>4. Dylunio rhaglen o sesiynau briffio a diweddariadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb.</p> <p>5. Dadansoddi adborth o sesiynau hyfforddiant i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni a bod y niferoedd a hyfforddir yn cynyddu.</p> <p>6. Data i gefnogi cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu'r cyrsiau.</p>	<p>Tîm Adnoddau Dynol/Datblygu Staff</p> <p>Gwasanaethau Myfyrwyr ac AD</p> <p>Datblygu Staff</p>

<p>Sicrhau bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol yn Undeb Bangor gan ddarparu hyfforddiant priodol a pharhau i godi ymwybyddiaeth.</p>	<p>7. Monitro i ddangos bod staff caffael wedi cwblhau'r modiwl cydraddoldeb/moeseg a'u bod yn gallu rhoi eu gwybodaeth ar waith yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.</p> <p>8. Darparu Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i'r holl staff a'r swyddogion sabothol. Sicrhau bod yr holl reolwyr yn gweithredu'r polisi a'r cynllun gweithredu yn eu meysydd/gwasanaethau a'u gweithgareddau eu hunain. Cynnwys hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o'r Gynhadledd Arweinyddiaeth Myfyrwyr.</p>	<p>Gwasanaethau Myfyrwyr</p> <p>Cyfarwyddwr Caffael</p> <p>Undeb y Myfyrwyr</p>
<p><u>Monitro</u> Adolygu ac ehangu cwmpas y data monitro a sicrhau ei fod ar gael mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur ac adrannau eraill er mwyn cwrdd â rhwymedigaethau adrodd cyfreithiol (Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol/Archwiliad Cyflog Cyfartal/Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) a nodi unrhyw fylchau. Adolygu'r data cydraddoldeb a gedwir am staff yn dilyn rhoi'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ar waith.</p>	<p>1. Sicrhau bod y data perthnasol ar gael ar System Gwybodaeth Busnes y Brifysgol a system Agresso.</p> <p>2. Monitro cynwion, achosion disgyblaeth ac anghydfodau am faterion yn ymwneud â chydaddoldeb.</p> <p>3. Cynnal arolwg o'r holl staff yn eu hysbysu am y data cydraddoldeb sydd gennym ac yn gofyn iddynt ddiweddar'u'r data hwnnw (glanhau data).</p> <p>4. Hysbysu staff am sut y cedwir data yn gyfrinachol a'i ddefnyddio i fonitro nodweddion gwarchodedig yn y gweithle er mwyn sicrhau triniaeth deg i bawb gyda'r nod o wella hunan-ddatgan mewn rhai meysydd e.e. cyfeiriadedd rhywiol</p>	<p>Adnoddau Dynol</p>

	(yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf gwrthododd 24.09% o staff ddatgan y wybodaeth hon).	
<u>Cyhoeddi</u> Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol o ran adroddiadau blynyddol	1. Rhaid i'r adroddiadau gael eu cytuno arnynt gan y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'u cadarnhau yng nghyfarfod mis Chwefror neu fis Mawrth o Gyngor y Brifysgol. 2. Mae'r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb i'w gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn (y cyfnod adrodd fydd y flwyddyn academiaidd flaenorol). 3. Mae'r Archwiliad Cyflog Cyfartal i'w gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn (data o'r mis Mawrth blaenorol ymlaen). 4. Mae'r Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau i'w gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn (data o'r mis Mawrth blaenorol ymlaen). 5. Mae pob adroddiad i'w gyhoeddi ar y dudalen we Cydraddoldeb y mae gan y cyhoedd fynediad iddi.	Adnoddau Dynol
<u>Cyflog cyfartal, bwlch cyflog rhwng y rhywiau a materion cytundebol</u>  Cynllun Gweithredu Cyflog Cyfartal.  Model Llwyth Gwaith	1. Monitro amrywiad ar raddfeydd cyflog HERA 2. Monitro llwyddiant gweithredu a dileu amrywiad 3. Adolygiad o Fandiau Cyflog yn unol â'r Cyflog Byw. 4. Datblygu model dyrannu llwyth gwaith gydag UCU a'r Grŵp Tasg a Gorffen Dyrannu Llwyth Gwaith i gefnogi'r polisi presennol.	Adnoddau Dynol gyda chyfraniad gan Undebau cydnabyddedig y Campws
<u>Staff anabl</u>  Adolygu'r Polisi i sicrhau cefnogaeth briodol i staff anabl.	1. Cyhoeddi Polisi Rheoli Presenoldeb wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar ein Gwefan.	Adnoddau Dynol / Iechyd Galwedigaethol

<p>Hyfforddiant i reolwyr ar reoli absenoldeb a chefnogi staff.</p> <p>Adolygiad o'r Gwasanaeth Cwnsela cyfrinachol (darparwr allanol).</p>	<p>2. Monitro a chynyddu'r nifer o reolwyr sy'n cael eu hyfforddi i reoli absenoldeb.</p> <p>3. Monitro a chynyddu'r nifer o reolwyr sy'n cael eu hyfforddi i reoli</p> <p>Materion Iechyd Meddwl yn y gweithle.</p> <p>4. Y ddarpariaeth wedi'i hadolygu a darparwyr amgen wedi cael eu hystyried.</p>	
<p><u>Caffael a chynaliadwyedd</u></p> <p>Ymgorffori'r defnydd o Asesiadau Risg Cynaliadwy (Gwerth Cymru) fel rhan o bob un o dendrau'r Brifysgol i sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried.</p>	<p>1. Cwblhau Asesiadau Risg Cynaliadwy cyn cynhyrchu manylebau, a fydd yn dangos tystiolaeth bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael eu hystyried. Bydd yr Asesiad Risg Cynaliadwy yn manylu ar y camau a gymerwyd i ymgorffori'r gofynion yn y broses dendro, lle bo'n briodol.</p> <p>2. Cyngor ar gydraddoldeb ar gael yng Nghlanllawiau Cyflenwyr y Brifysgol ac ar y wefan.</p> <p><i>Caiff cynnydd ei fonitro drwy'r Adroddiad Caffael Blynyddol, a anfonir at y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Adnoddau ym Medi/Hydref bob blwyddyn.</i></p>	<p>Cyfarwyddwr Caffael</p>
<p><u>Mynediad Cynhwysol</u></p> <p>Blaenoriaethu'r materion a nodwyd gan y Gweithgor Mynediad Cynhwysol.</p> <p>"Fe Ddywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni" ar faterion mynediad.</p>	<p>1. Cynnydd yn cael ei fonitro gan y Gweithgor Mynediad Corfforol ac yn cael ei adrodd i'r Grŵp Tasg Eiddo a Champws a'r Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</p>	<p>Gweithgor Mynediad Cynhwysol</p>

<p>Adolygiad o'r ddarpariaeth parcio cyfleus.</p> <p>Nodi meysydd ar gyfer cydweithio i wneud gwelliannau, er mwyn meithrin amgylchedd mwy cynhwysol ac ymarferol i fyfyrwyr anabl ym Mhrifysgol Bangor ac Undeb Bangor.</p>	<p>2. Ystyried cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r archwiliad hygyrchedd diweddar a gynhaliwyd gan aelod o gymuned y myfyrwyr.</p> <p>3. Datblygu fideo ar gyfer gwefannau'r Undeb a'r Brifysgol, y gellir ei ddefnyddio i hysbysebu'r gwahanol wasanaethau a sut y gall y Brifysgol gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau.</p>	<p>Undeb y Myfyrwyr</p>
--	---	-------------------------

**AMCAN 2      ADDYSG A PHROFIAD RHAGOROL I FYFYRWYR**

**Dyletswydd Cydraddoldeb**      **Sicrhau: dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda**

**Y Brifysgol:**      **Blaenoriaeth Strategol 1: Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfyrwyr**  
**Blaenoriaeth Strategol 3: Prifysgol Ryngwladol ar gyfer y Rhanbarthau.**

<b>CAMAU GWEITHREDU CYDRADDOLDEB</b>	<b>MESUR LLWYDDIANT</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
<p><u>Strategaeth Profiad Myfyrwyr</u></p> <p>Strategaeth Profiad Myfyrwyr 2015-2018</p> <p>Llunio adroddiad terfynol ar ddeilliannau'r strategaeth gan gynnwys cyfeirio at sut y bydd y gwaith yn cael ei</p>	<p>1. Caiff yr adroddiad ei ddsbarthu gan y Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr, y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Pwyllgor Gweithredu a'r Senedd.</p>	<p>Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr</p>



<p>ymgorffori mewn arferion presennol.</p> <p>Gweithredu'r Polisi ar Beidio â Goddef Aflonyddwch i Fyfirwyr.</p>	<p>2. Datblygu trefn ymateb glir a hygyrch i staff sy'n derbyn datgeliadau o drais rhywiol, gan gynnwys rhaglen dreigl o hyfforddiant ar gyfer staff.</p> <p>3. Datblygu strategaeth ledled y sefydliad ar gyfer rhwystro aflonyddu, troseddau casineb a thrais rhywiol, ac i gefnogi dioddefwyr.</p>	<p>Swyddog Cydraddoldeb Myfirwyr</p>
<p><u>Strategaeth Iechyd Meddwl Myfirwyr</u></p> <p>Parhau i ddarparu hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i staff.</p> <p>Parhau i gasglu data perthnasol sy'n cynorthwyo ein gwybodaeth am afiechyd meddwl ymysg myfirwyr, nifer yr achosion a chanlyniadau.</p> <p>Gwella'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach ar gyfer iechyd meddwl myfirwyr gan gynnwys ymchwilio i adnoddau Cymraeg allanol hyfyw.</p>	<p>1. Archwilio presenoldeb ar y cyrsiau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.</p> <p>2. Adrodd y data mewn adroddiadau blynyddol megis yr Adroddiad Cwnsela Blynyddol a'r Adroddiad Anabledd Blynyddol yn ogystal â'r wybodaeth a gesglir ar gyfer y Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfirwyr gan ei intern.</p> <p>3. Mesurir gan lwyddiant (neu ddiffyg llwyddiant) cynnydd yn y ddarpariaeth gwnsela (a chyingor iechyd meddwl) trwy gyfrwng y Gymraeg, ac o gynlluniau strategol yn fwy cenedlaethol yn gan chwilio am gyfatebiaeth o ran adnoddau megis BigWhiteWall.</p>	<p>Pennaeth Cwnsela Myfirwyr</p>
<p><u>Swyddfa Ryngwladol</u></p> <p>Darparu rhaglen gynhwysol o ddigwyddiadau trwy gydol</p>	<p>1. Cynhyrchu rhaglen flynyddol, yn seiliedig ar adborth gan fyfirwyr. Caiff llwyddiant ei fesur gan y nifer o gyfranogwyr a'r adborth ar ddiwedd y flwyddyn.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau</p>

<p>y flwyddyn - yn hyrwyddo integreiddiad.</p> <p>Cynllun Hyrwyddwyr Myfyrwyr Rhyngwladol</p> <p>Ymgysylltu'n effeithiol â chymdeithasau myfyrwyr rhyngwladol</p>	<p>2. Penodir myfyrwyr i'r cynllun sy'n gynrychioliadol o'r corff amrywiol rhyngwladol o fyfyrwyr. Yn llwyddo i ddarparu cyswllt rhwng myfyrwyr (presennol a darpar fyfyrwyr) a'r gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol.</p> <p>3. Cyflwyno digwyddiadau ar y cyd a phroffil a chyfranogiad uwch ymysg myfyrwyr rhyngwladol.</p>	<p>Myfyrwyr Rhyngwladol</p>
<p><u>Undeb y Myfyrwyr</u></p> <p>Lobïo ar faterion mynediad anabl Ymgyrchu dros fynediad trwy allweddi radar i doiledau anabl. Hyrwyddo hyfforddiant cynwysoldeb anabledd mewn chwaraeon</p> <p>LHDTTC+ <sup>2</sup> yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- hyfforddiant ymwybyddiaeth</li> <li>- Ymgyrch dros doiledau gender niwtral.</li> <li>- Ymgyrch Allan mewn Chwaraeon i ddileu homoffobia mewn chwaraeon.</li> </ul> <p>Gwaith ar y Llw lechyd Meddwl i ddileu stigma yn y maes hwn.</p>	<p>1. Adrodd trwy ddulliau adrodd Undeb y Myfyrwyr ac i Grŵp Tasg Undeb y Myfyrwyr. Adrodd yn ôl yn flynyddol i'r broses adrodd flynyddol Cydraddoldeb Strategol.</p> <p>2. Bydd hyfforddiant cynwysoldeb anabledd yn rhan fawr o hyfforddiant clybiau a chymdeithasau yn y flwyddyn academaidd nesaf.</p> <p>3. Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth LGBT+ fel rhan o'n Cynhadledd Arweinyddiaeth Myfyrwyr.</p> <p>4. Hyrwyddo ein hymgyrch wedi'i ail-frandio, Balchder mewn Chwaraeon, a datblygu'r ymgyrch dros y flwyddyn academaidd nesaf i gynnwys sgysiau a mwy o waith ar godi ymwybyddiaeth.</p> <p>5. Datblygu Fframwaith Iechyd Meddwl sy'n ymateb i adborth ac anghenion myfyrwyr.</p>	<p>Arweinir gan Swyddogion Sabothol yn Undeb Myfyrwyr Bangor</p>

<p>Hyrwyddo'r Polisi ar Beidio â Goddef Aflonyddu i Fyfirwyr yn enwedig mewn perthynas â "diwylliant y llanc".</p> <p>Gweithio ar sut mae cyflawni profiad dysgu mwy amrywiol a chynhwysol i fyfirwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig.</p>	<p>6. Adolygu a hyrwyddo ein Polisiâu Man Diogel a Pheidio â Goddef er mwyn gwneud myfirwyr yn fwy ymwybodol o ystyr y polisiâu hyn a'n safbwynt ni.</p> <p>7. Gweithio gyda'n Cynghorydd Undeb Bangor Myfirwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig ar sut i godi proffil y rhwystrau a wynebir gan fyfirwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig megis y bwch cyrhaeddiad, ac ehangu ein gwaith ar gwricwlwm cynhwysol i edrych yn fwy manwl ar fyfirwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig. Datblygu grŵp ffocws Myfirwyr Duon ac o Leiafrifoedd Ethnig i edrych ar gynrychiolaeth a sut y gall myfirwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig deimlo eu bod wedi eu cynnwys fwy yn UM.</p>	
--	---	--

<p><u>Ehangu Mynediad</u></p> <p>Cydweithio gyda'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ac mewn gwaith gyda Phobl Ifan sy'n Gadael Gofal Gofal.</p> <p>Gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Gofalwyr ac asiantaethau eraill i gyrraedd Gofalwyr Ifanc, Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion.</p> <p>Hwyluso gweithgareddau gan yr ysgolion academaidd mewn gwaith perthnasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn y gymuned.</p> <p>Hyrwyddo darpariaeth Uned Dyslecsia Miles.</p> <p>Mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai, darparu Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth o Fyddardod, cyflwyniad i BSL a chyrsgiau dilyniant i staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mwy o weithgarwch yn paratoi rhai sy'n gadael gofal ar gyfer Addysg Uwch gan gydweithio â Gwasanaethau Myfyrwyr yn benodol mewn perthynas â chefnogaeth Iechyd Meddwl.</li> <li>2. Sefydlu ysgol undydd a/neu weithgaredd penwythnos yng ngogledd orllewin Cymru.</li> <li>3. Mwy o weithgaredd yn ymwneud â gweithgareddau mewn Ysgolion.</li> <li>4. Sefydlu cyfres o weithdai ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol.</li> <li>5. Darparu cyrsiau cyfleus a chodi ymwybyddiaeth.</li> </ol>	<p>Pennaeth Ehangu Mynediad</p>
--	---	---

<p><u>Ymestyn yn Ehangach</u></p> <p>Ehangu mynediad i Addysg Uwch i bobl sy'n byw mewn ardal Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru a phobl ifanc sydd o gefndir gofal, trwy greu amrywiaeth eang o gyfleoedd astudio a llwybrau dysgu i addysg uwch.</p> <p>Alinio gyda chynllunio partneriaeth ehangu mynediad, cynlluniau ffioedd a chynlluniau cydraddoldeb strategol.</p> <p>Gweithio i ehangu mynediad i AU cyfrwng Cymraeg gan gynnwys cysylltiadau â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mwy o gyfranogiad cenedlaethol mewn AU gan bobl yn y grwpiau targed</li> <li>2. Alinio clir rhwng Strategaeth NMWRP a chynlluniau darparwyr AU eraill yn cynnwys Prifysgol Bangor a Choleg Llandrillo Menai.</li> <li>3. Cynnydd mewn cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a chyfraddau cyfranogi.</li> </ol>	<p>NMWRWP (Partneriaeth Ymgeisio'n Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru)</p>

<b>AMCAN 3</b>	<b>CRYFHAU LLWYDDIANT YMCHWIL</b>	
<b>Dyletswydd Cydraddoldeb</b>	<b>Sicrhau: dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda</b>	
<b>Y Brifysgol:</b>	<b>Blaenoriaeth Strategol 2: Gwella Llwyddiant Ymchwil</b>	
<b>CAMAU GWEITHREDU CYDRADDOLDEB</b>	<b>MESUR LLWYDDIANT</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
<u>Athena Swan</u>  Er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn Natganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth RCUK <sup>5</sup> , yn gweithredu Egwyddor y Concordat Ymchwil ac egwyddorion Siarter Athena SWAN.	1. Ennill Gwobrau Athena SWAN ar lefel Prifysgol ac ar lefel Ysgolion. 2. Ennill Gwobr Rhagoriaeth Ymchwil AD 3. Gwelliant parhaus mewn ymateb staff i feysydd perthnasol y <i>Careers in Research Online Survey (CROS)</i> .  4. Datblygu polisi a chanllawiau i gefnogi staff a myfyrwyr traws a fydd yn creu cymuned gynhwysol i bob unigolyn traws.	Swyddog Athena SWAN        Adnoddau Dynol / Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr

<p><u>Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)</u></p> <p>Sicrhau bod Cod Ymarfer REF y Brifysgol yn cydymffurfio â chydaddoldeb ac yn sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda.</p> <p>Sicrhau bod pob aelod staff Prifysgol sy'n cymryd rhan yn y drefn ddewis ar gyfer y REF wedi cwblhau hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb.</p>	<p>1. Mae Prifysgol Bangor yn paratoi ar gyfer REF 2021 gan ddefnyddio ymarfer "Rhaglen Dreigl REF". Ymarfer gweinyddol yw hwn sy'n golygu adolygu'r systemau, data, gweithgareddau ac allbynnau ym maes ymchwil yn flynyddol. Un o ddeilliannau allweddol rhaglen dreigl y REF yw rhoi diweddariad blynyddol i unigolion ar eu cynnydd tuag at gyflwyno eu hymchwil. Cynhelir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb o Ionawr 2019 ymlaen i sicrhau dull teg o ddethol allbynnau.</p> <p>2. Monitro i gadarnhau bod y staff sy'n cymryd rhan yng Nghod Ymarfer y REF ac yng ngweithredu'r goblygiadau cydraddoldeb perthnasol wedi derbyn hyfforddiant priodol.</p>	<p>Rheolwr REF</p> <p>Adnoddau Dynol</p>
---	---	--